Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Mae rheolau iechyd a diogelwch yn gwahardd arbrofion yn y dosbarth

Y gwirionedd Mae gwersi ymarferol yn rhan hanfodol o ddysgu. Maent yn dod â gwyddoniaeth yn fyw i blant ac yn eu dysgu sut i drafod sylweddau peryglus yn ddiogel.

Gall gwaith arddangos yn y dosbarth fod yn wefreiddiol - gofynnwch i Judith Hackitt, Cadeirydd HSE. Yn gynharach eleni gwnaeth 'roi ei dwylo ar dân' - yn ddiogel - i ddangos gwyddoniaeth a rheoli risg synhwyrol ar waith!

Nid oes rheswm pam y dylai iechyd a diogelwch atal ysgolion rhag cynnal arbrofion gwyddoniaeth. Gallant helpu i ddysgu plant sut i reoli risg - ac wedi'r cyfan, y cwbl sydd ei angen yw dilyn rhai camau diogelwch synhwyrol.